OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 1865 (Cy.203)

TAI, CYMRU

Rheoliadau Tai (Prynu Buddiannau Ecwitïol) (Cymru) 2011

Gwnaed - - - -	*26 Gorffennaf 2011*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*27 Gorffennaf 2011*
Yn dod i rym - -	*19 Awst 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 450D o Ddeddf Tai 1985(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tai (Prynu Buddiannau Ecwitïol) (Cymru) 2011 a deuant i rym ar 19 Awst 2011.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Pŵer i brynu buddiant ecwitïol i gynorthwyo tenant i dalu taliadau ffioedd gwasanaeth

2.—(1) Caiff awdurdod tai ("y landlord") brynu, gyda chytundeb y tenant, fuddiant ecwitïol mewn fflat pan fo'r amodau ym mharagraff (2) wedi eu bodloni.

(2) Y gofynion a grybwyllwyd ym mharagraff (1) yw—

(a) bod les hir y fflat wedi cael ei rhoi neu ei haseinio gan y landlord neu awdurdod tai arall;

(b) bod y tenant yn atebol o dan delerau'r les i dalu ffioedd gwasanaeth i'r landlord mewn cysylltiad ag atgyweiriadau neu gyfraniadau at welliant (p'un ai i'r fflat, yr adeilad lle y mae neu unrhyw adeilad arall neu dir arall); ac

(c) mai diben y prynu yw cynorthwyo'r tenant i dalu rhywfaint neu'r cyfan o'r taliadau ffioedd gwasanaeth.

(**1**) 1985 p. 68. Mewnosodwyd adran 450D gan adran 309 o Ddeddf Tai ac Adfywio 2008 (p.17). Mae'r pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 450D(1) wedi ei roi i'r awdurdod cenedlaethol priodol (yr "appropriate national authority"). Yn rhinwedd adran 450D(10), ystyr yr "*appropriate national authority*" yw Gweinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru.